Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ysbyty Cwm Rhondda

## Dyddiad y gweithgarwch: 8 Medi 2020

Dyddiad cyhoeddi: 6 Hydref 2020





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80082-292-4

WG41024 (h) Hawlfraint y Goron 2020

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward A1, Ysbyty Cwm Rhondda fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Ward A1 yn darparu gofal adsefydlu i'r cleifion. Yn ystod cyfyngiadau symud pandemig COVID-19, cafodd Ward A1 ei dynodi'n ward i gleifion â COVID-19.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Ward a'r Uwch-Nyrs ar 8 Medi 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

## Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; pa newidiadau mae wedi'u gwneud i sicrhau y gall barhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwnaethom adolygu

polisïau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Mae'r ward wedi cynnal yr asesiadau risg angenrheidiol ac wedi datblygu gweithdrefnau perthnasol er mwyn bodloni gofynion ychwanegol pandemig COVID-19.

Gwelsom fod trefniadau ymweld â chleifion safonol ar y ward wedi cael eu gohirio yn ystod y pandemig, yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, roedd proses ymweld ar gyfer cleifion diwedd oes wedi cael ei chyflwyno.

Dywedwyd wrthym fod dyfeisiau kindle, ffonau symudol a llechi yn cael eu darparu i gleifion nad oeddent yn gallu cael ymwelwyr wyneb yn wyneb oherwydd bod y trefniadau ymweld wedi cael eu gohirio, a bod y staff wedi treulio amser yn helpu'r cleifion i gysylltu â'u ffrindiau a'u perthnasau.

Dywedwyd wrthym fod gan y ward ddigon o PPE a bod lefelau stoc yn cael eu monitro'n ddyddiol.

Canmolodd yr Uwch-Nyrs a Rheolwr y Ward staff y ward am y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y ward, y cleifion a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom wybod bod amgylchedd y ward yn cael ei fonitro'n ddyddiol gan Reolwr y Ward a'r tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn daclus.

Gwnaethom nodi bod archwiliad asesiad risg amgylcheddol cynhwysfawr wedi cael ei gwblhau

ar lefel ward. Roedd yr asesiad risg wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac roedd yn cynnwys camau gweithredu ac amserlenni clir.

Cawsom wybod bod unrhyw gleifion sydd heb alluedd meddyliol yn cael asesiad Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid wrth gael eu derbyn. Mae hyn yn sicrhau bod hawliau'r bobl yn cael eu cynnal ac yn galluogi'r staff i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn briodol ac yn urddasol i gleifion agored i niwed. Mae gan y ward bolisi cloi drysau i helpu i gadw'r cleifion yn ddiogel.

Cawsom wybod bod urddas y cleifion yn cael ei ddiogelu'n llawn drwy ddefnyddio sgriniau, llenni ac arwyddion yn briodol ar y ward. Cawsom wybod hefyd fod Rheolwr y Ward wedi prynu pyjamas a gŵn nosys yn bersonol at ddefnydd y cleifion er mwyn cynnal eu hurddas yn ystod pandemig COVID-19. Nodwyd fod hyn yn arfer nodedig wrth gynnal urddas y cleifion.

Cawsom wybod bod y ward wedi rhoi rhestr wirio 'rowndiau bwriadol' ar waith i'w chwblhau ar gyfer pob claf drwy gydol y dydd. Mae'r rhestr wirio 'rowndiau bwriadol' yn cynnwys cadw llygad ar bob claf er mwyn sicrhau bod ganddo bopeth sydd ei angen arno ac er mwyn sicrhau bod y staff yn fwy gweladwy i'r cleifion sy'n rhoi sicrwydd iddynt. Cawsom wybod bod llai o achosion o gwympo ymhlith y cleifion ar y ward ers cyflwyno'r rhestr wirio. Gwnaethom fwrw golwg ar yr archwiliad o gwympiadau ac roedd yn amlwg bod llai o achosion na'r flwyddyn flaenorol. Rydym yn cydnabod bod cyflwyno'r rhestr wirio 'rowndiau bwriadol' yn arfer dda.

Mae amrywiaeth o archwiliadau wedi'u trefnu drwy gydol y flwyddyn er mwyn cefnogi diogelwch y cleifion ar y ward, sy'n cynnwys archwiliadau ar gwympiadau a briwiau pwyso a niwed i'r feinwe. Gwnaethom edrych ar sampl o'r rhain a gwelsom fod sgoriau cadarnhaol wedi cael eu cyflawni yn gyffredinol.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom wybod bod Rheolwr y Ward a'r Dirprwy yn cynnal archwiliadau ar hylendid dwylo, defnydd o PPE a glendid cyffredinol y ward yn wythnosol.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau'n ddiweddar a hefyd gwelsom dystiolaeth bod y cynllun gweithredu a ddeilliodd o'r archwiliad yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

Cawsom wybodaeth am hyfforddiant rheoli heintiau. Ar 1 Medi 2020, roedd yn dangos bod 96% o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant.

Mae gan yr ysbyty nyrs gyswllt benodedig ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau sy'n cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r ward er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i ganllawiau neu arferion.

Cawsom wybod bod sgrymiau Atal a Rheoli Heintiau hefyd yn cael eu cynnal sy'n cynnwys y tîm amlddisgyblaethol er mwyn i'r tîm gynllunio gofal yn ddiogel.

Cawsom wybod bod gan y ward aelodau penodedig o'r tîm sy'n sicrhau bod digon o PPE ar gael i wneud yn siŵr bod y cleifion, y staff a'r ymwelwyr yn ddiogel bob amser.

Cawsom wybod bod yna gyfleusterau ar y ward i ynysu cleifion lle bo angen, a bod yr asesiadau risg perthnasol yn cael eu cynnal. Roedd siartiau llif hefyd ar gael er mwyn helpu'r staff i reoli cleifion ag achosion posibl o COVID-19.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom dystiolaeth bod strategaeth ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, gwelsom fod angen ei hadnewyddu ym mis Ebrill 2020. Dywedodd yr Uwch-Nyrs wrthym fod y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o hyn a bod cynlluniau ar waith i adolygu'r polisi.

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisïau (megis uwchgyfeirio).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod gweithdrefnau addas yn bodoli ar gyfer sicrhau bod lefelau staffio yn briodol ac yn cynyddu pan fo angen, er enghraifft cynnydd mewn aciwtedd ar y ward neu absenoldeb

staff.

Cawsom ddata ar gyfraddau salwch a oedd yn dangos nad oedd achosion diweddar ar 1 Medi 2020. Dywedodd yr Uwch-Nyrs wrthym fod Rheolwr y Ward o gymorth mawr wrth reoli absenoldebau oherwydd salwch. Mae Rheolwr y Ward yn cefnogi'r staff drwy ymyrryd yn gynnar a chynnig ffyrdd amgen o weithio sy'n helpu i gefnogi aelodau'r tîm i aros yn y gwaith.

Cawsom wybod bod Rheolwr y Ward yn creu diwylliant cefnogol ac yn cynnal archwiliadau misol o sgiliau'r staff, ynghyd ag adolygiad o'u hanghenion hyfforddiant. Cawsom wybod bod cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod targedau penodol yn cael eu cyflawni.

Cawsom ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer y tîm a gwelsom fod cyfradd uchel o gydymffurfio ym mhob maes. Hefyd, cawsom wybodaeth am arfarniadau'r staff a nodwyd bod dros 96% o'r aelodau o staff wedi cael arfarniad blynyddol.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom dystiolaeth bod gweithdrefn uwchgyfeirio ar waith. Fodd bynnag, nodwyd bod angen ei hadnewyddu ym mis Medi 2019. Dywedodd yr Uwch-Nyrs wrthym fod y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o hyn a bod cynlluniau ar waith i adolygu'r polisi.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain isod:

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad

ehangach

- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC

# Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Cwm Rhondda

Ward: A1

Dyddiad y gweithgarwch: 8 Medi 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.
Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff y polisi ar gyfer atal a rheoli heintiau ei adolygu. | Y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y polisi yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen mewn modd amserol. | Cyflwyno'r strategaeth Atal a Rheoli Heintiau newydd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau ym mis Hydref 2020 i'w chymeradwyo. | Uwch-Nyrs Atal a Rheoli Heintiau | 01/12/2020 |
| 2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y weithdrefn uwchgyfeirio yn cael ei hadolygu. | Y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y polisi yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. | Drafftiwyd Cynllun Uwchgyfeirio Pwysau Brys diwygiedig (9 Medi 2020) ac fe'i cyflwynwyd i Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau. Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, caiff ei gyflwyno ar | Rheolwr Argyfyngau Sifil Posibl | 01/10/ 2020 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | fewnrwyd CTM. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Carole Tookey,   Cyfarwyddwr Nyrsio Ardal Grŵp Ardal Leol Integredig Rhondda, Taf ac Elái

Dyddiad:  21/09/2020